**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Ebrill 2022

Annwyl Russell,

**Fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer labelu, cyfansoddiad a safonau bwyd.**

Diolch yn fawr ichi am ofyn am safbwyntiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r fframwaith cyffredin ar gyfer labelu, cyfansoddiad a safonau bwyd. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r cwestiynau wedi'i amgáu.

Yn ystod y broses o ddatblygu Fframweithiau Cyffredin (ar draws y rhaglen yn ei chyfanrwydd), daeth nifer o faterion trawsbynciol i'r amlwg a fyddai'n effeithio ar y Fframweithiau Cyffredin i gyd.

Roedd y rhain yn cynnwys sut y byddai fframweithiau yn cyfeirio at eu rhyngweithio â:
- chysylltiadau rhyngwladol a masnach
- Protocol Gogledd Iwerddon
- proses eithriadau Deddf Marchnad Fewnol y DU
- yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, a'r
- Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatrys y materion hyn, cytunodd Bwrdd Prosiect Fframweithiau Cyffredin Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar lefel uwch swyddogion, ar iaith safonol ynghylch y pedwar mater trawsbynciol i'w cynnwys mewn Fframweithiau Cyffredin.

Trafododd gweinidogion cyfansoddiadol Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig y dulliau gweithredu y cytunwyd arnynt mewn cyfarfod Pedairochrog ym mis Medi 2021. Cytunwyd ar y geiriad safonol mewn cyfarfod gweinidogol Pedairochrog ym mis Tachwedd 2021.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad: Fframweithiau Cyffredin: cais am ragor o wybodaeth**

1. **Pam mae angen fframwaith ar gyfer y maes polisi hwn?**

   Ar hyn o bryd, gellir marchnata a gwerthu nwyddau bwyd-amaeth ledled y DU cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol perthnasol, sydd wedi'u cynnwys yn bennnaf yn Rheoliadau'r UE a ddargedwir. Yn awr ac yn y dyfodol, mae pob parti sy'n rhan o'r fframwaith yn cytuno bod lefel o elfennau cyffredin ar draws y polisi labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â bwyd (FCSL) yn fuddiol, yn enwedig i'r busnesau hynny sy'n gweithredu ar draws ffiniau'r DU. Felly, mae'r cytundebau fel y'u nodir yn y fframwaith yn darparu ar gyfer ceisio sicrhau cydweithio agos gyda dull gweithredu cyson ar draws y pedair gwlad bob amser yn y lle cyntaf, gan gydnabod y dylai'r cyfle i ymwahanu barhau lle cytunir ei fod yn angenrheidiol ac yn briodol.

2. **Mae'r fframwaith yn nodi y bydd llywodraethau'n gallu ymwahanu o dan y fframwaith hwn "lle mae'r dystiolaeth yn glir bod ymwahanu'n angenrheidiol ac yn gymesur i ddiwallu anghenion lleol". Sut y byddwch yn penderfynu a yw ymwahanu yn "angenrheidiol ac yn gymesur"?**

   Mae gan y partïon sy'n rhan o'r fframwaith y gallu i ymwahanu o fewn eu tiriogaethau (ar ôl dilyn y prosesau a nodir yn y Concordat hwn ar gyfer rheoli ymwahanu neu ddatrys anghydfod) lle bo gan Weinidogion dystiolaeth i ddangos bod ymwahanu yn angenrheidiol ac yn gymesur i ddiogelu defnyddwyr yn yr ardal neu'r diriogaeth ddan sylw.

   Bydd yr hyn sy'n angenrheidiol a/neu'n gymesur yn cael ei bennu fesul achos yng nghyd-destun y dystiolaeth sy'n nodi'r angen posibl am ymwahanu.

3. **Mae cysylltiad agos rhwng y fframwaith hwn a fframweithiau ar gyfer diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a hylendid a labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â maeth. Sut y caiff y cysylltiadau rhwng y fframweithiau cyffredin hyn eu rheoli?**

   Bydd swyddogion sy'n gweithio yn y meysydd hyn yn parhau i ddilyn y prosesau pedair gwlad presennol. Mae'r fframweithiau cyffredin yn cynnwys yr un sefydliadau ag sydd eisoes â mecanweithiau ar waith ar gyfer cydweithio agos.

   Enghraifft dda o waith sydd eisoes ar y gweill yw'r adolygiad pedair gwlad o Reoliadau Bara a Blawd 1988. Mae hyn yn cael ei wneud gan swyddogion yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llywodraeth Cymru, Defra, Food Standards Scotland, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Llywodraeth y DU a'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon.

   Mae'r adolygiad yn cynnwys atgyfnerthu asid ffolig mewn blawd sy'n rhan o gylch gwaith y fframwaith labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â maeth (NLCS). Gan ddefnyddio'r strwythurau a sefydlwyd o fewn y fframwaith hwn, mae swyddogion wedi sefydlu gweithgor polisi ar y cyd i adolygu'r rheoliadau a'r cynigion ar gyfer ymgynghori ar draws y llywodraeth. Yn amodol ar gytundeb Gweinidogion, cynhelir ymgynghoriad ledled y DU i gwmpasu'r holl newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau Bara a Blawd, gan gynnwys y rhai y tu allan i gwmpas y fframwaith hwn megis atgyfnerthu asid ffolig.

**Rheoli ymwahanu**

4. **Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru beidio â bwrw ymlaen â chynnig polisi o fewn cwmpas nes ei fod wedi mynd drwy broses penderfynu ar y cyd. Pa effaith y gallai hyn ei chael ar gymhwysedd y Senedd a Llywodraeth Cymru?**

Bydd Gweinidogion yn cadw'r hawl i wneud penderfyniadau unigol ar gyfer eu llywodraethau, megis a ddylid gwneud deddfwriaeth ai peidio. Felly, ni fydd cymhwysedd y Senedd a Llywodraeth Cymru yn newid.

Nid yw'r fframwaith yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i wneud polisi neu ddeddfwriaeth ar wahân ar gyfer Cymru. Bydd ymwahanu mewn polisi neu ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig yn parhau i fod yn bosibl, a bydd y fframwaith yn darparu llwybr mwy ffurfiol ar gyfer trafodaethau cynnar ynghylch naill ai llunio polisi ar y cyd neu ar wahân. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r mecanwaith datrys anghydfod os bydd gweinyddiaeth yn ystyried bod polisi gweinyddiaeth arall yn niweidiol, er enghraifft, os nad yw'n cydymffurfio â safonau rhyngwladol neu os yw'n cael effeithiau niweidiol sylweddol mewn gwledydd eraill.

5. **Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru beidio â lansio ymgynghoriad cyhoeddus, na gwneud cynnydd mewn unrhyw ffordd berthnasol arall, gyda chynnig polisi o fewn cwmpas, nes iddo gael ei ystyried gan grŵp swyddogion y Safonau Cyfansoddiad Bwyd a Labelu. Sut y bydd hyn yn effeithio ar rôl rhanddeiliaid yng Nghymru wrth ddatblygu cyfraith a pholisïau yng Nghymru?**

   Ni fydd rôl rhanddeiliaid Cymru o ran datblygu cyfraith a pholisi Cymru yn newid. Bydd y broses ar gyfer ei gwneud yn ofynnol bod cynigion yn cael eu trafod gan grŵp swyddogion FCSL cyn ymgynghori o fudd i randdeiliaid Cymru oherwydd bydd yn sicrhau bod ymgysylltu a chyfathrebu cydgysylltiedig â seneddau a rhanddeiliaid ledled y DU. Bydd hefyd yn darparu safbwynt cydgysylltiedig yn y DU ar bolisi FCSL, gan arwain at negeseuon clir a chyson i ddefnyddwyr a'r diwydiant.

6. **Pam y bydd newidiadau i'r gyfraith o fewn cwmpas prosesau gwneud penderfyniadau'r fframwaith pan mae cyfraith yr UE yn caniatáu i fesurau cenedlaethol gyflawni canlyniadau cyffredin?**

   Bydd mesurau cenedlaethol o fewn cwmpas y fframwaith ond nid o fewn cwmpas prosesau datrys anghydfod. Mae hyn yn sicrhau bod pob parti sy'n rhan o'r fframwaith yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig sy'n cael eu gwneud ledled y DU yn y maes polisi hwn a'u bod yn cael cyfle i ymgysylltu cyn gynted â phosibl. Ni fydd hyn yn atal Gweinidogion Cymru rhag gallu gwneud mesurau cenedlaethol ar gyfer Cymru ond bydd yn gyfle i gael rheolau cydnaws ledled y DU os yw hynny'n ddymunol i Weinidogion.

7. **Pam y bydd newidiadau i'r gyfraith o fewn cwmpas prosesau gwneud penderfyniadau'r fframwaith a fyddai ond yn gymwys i fusnesau a sefydlir neu gynhyrchion a ddosberthir yng Nghymru?**

   Mae maes polisi FCSL yn cael ei gwmpasu gan amrywiaeth o gyfreithiau'r UE a ddargedwir (a restrir yn Atodiad C o Gytundeb Amlinellol y Fframwaith)) a deddfwriaeth ddomestig gysylltiedig sy'n gweithredu hyn yn y DU. Mae newidiadau yn y meysydd hynny, gan gynnwys cynigion i newid cyfreithiau'r UE a ddargedwir a chynigion i greu deddfwriaeth newydd ym maes polisi FCSL, o fewn cwmpas y fframwaith a'i brosesau gwneud penderfyniadau. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau ar newidiadau i bob maes o gyfreithiau FCSL yr UE a ddargedwir, yn dilyn argymhellion gan swyddogion. Mae'r fframwaith yn golygu y bydd Gweinidogion yn cael gwybod am y dulliau a argymhellir mewn gwledydd eraill, ac y dylid ceisio consensws ar y dulliau i'w cymryd, boed yn gyson ar draws gwledydd neu'n wahanol.

8. **Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno cynigion newydd ar labelu bwyd fel rhan o'i Strategaeth Fwyd Genedlaethol sydd ar y gweill. Pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i'r cynigion hyn ac a ddylai unrhyw newidiadau fod yn gymwys yng Nghymru?**

Bydd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth o fewn cwmpas y Fframwaith FCSL a gynigir o ganlyniad i'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol yn ddarostyngedig i broses y fframwaith, gan gynnwys datrys anghydfod.

9. **A ydych yn fodlon bod y rhestr o ddeddfwriaeth o fewn cwmpas y fframwaith yn Atodiad C wedi'i chwblhau? Er enghraifft, pam mae rheoliadau ar frasterau taenadwy wedi'u rhestru, ond bod rheoliadau ar olew olewydd yn absennol?**

   Rwy'n fodlon bod deddfwriaeth o fewn cylch gwaith polisi'r pedwar parti sy’n rhan o’r fframwaith wedi'i rhestru yn Atodiad C y fframwaith. Mae olew olewydd yn dod o fewn y maes polisi safonau marchnata, sy'n faes a arweinir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru. Nid oes gan yr ASB yng Nghymru unrhyw gyfrifoldeb polisi dros safonau marchnata, felly mae olew olewydd y tu allan i gwmpas y Fframwaith FCSL.

**Rôl yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)**

10. **Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yr arbenigedd a'r capasiti i wneud penderfyniadau ac argymhellion ar labelu bwyd a safonau cyfansoddiad bwyd ar gyfer Cymru yn y dyfodol?**

    Ariennir yr ASB yng Nghymru yn uniongyrchol drwy gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn unol ag Adran 39 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, ac mae'n cynhyrchu cyfrifon adnoddau llawn bob blwyddyn, a archwilir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

    Cytunodd Gweinidogion Cymru ar gynnydd yng nghyllid yr ASB yng Nghymru er mwyn darparu adnoddau ar gyfer rhai o'r swyddogaethau hynny a roddwyd i Weinidogion Cymru o ganlyniad i Ymadael â'r UE ac a ddarperir gan yr ASB yng Nghymru.

    Mae'r cynnydd hwn mewn capasiti staffio yn caniatáu i'r ASB yng Nghymru gyfrannu at ddatblygu polisi mewn perthynas â labelu a chyfansoddiad sy'n gysylltiedig â bwyd ar gyfer Cymru. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod yr ASB yng Nghymru yn parhau i fod â'r adnoddau, yr arbenigedd a'r capasiti i wneud penderfyniadau ac argymhellion ar ddyfodol labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â bwyd ar gyfer Cymru.

11. **A fydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn chwarae unrhyw ran yng ngwaith grŵp swyddogion y Safonau Cyfansoddiad Bwyd a Labelu?**

    Mae grŵp swyddogion FCSL yn fforwm i holl wledydd y DU archwilio diwygiadau arfaethedig i labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â bwyd, neu ddeddfwriaeth gwbl newydd yn eu cylch, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r ASB yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, Defra a Food Standards Scotland. Rôl yr ASB yng Nghymru yw cynrychioli buddiannau Gweinidogion Cymru. Lle y bo'n briodol, gellir gwahodd swyddogion o Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Adrannau Llywodraeth y DU a'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon i gyfarfodydd y grŵp hwn neu grwpiau polisi a sefydlwyd o dan y grŵp Swyddogion i drafod materion polisi penodol. Mae Gweinidogion Cymru yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn. Mae swyddogion o'r ASB yng Nghymru hefyd yn gofyn am arweiniad gan Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ar faterion polisi allweddol.

12. **Pa gynnydd sydd wedi'i wneud yn sgil yr adolygiad o'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021?**

    Mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd tendrau ddwywaith i gaffael y contractwr angenrheidiol i gynnal yr adolygiad ond nid yw wedi llwyddo i benodi unrhyw un. Rwy'n bwriadu ail-gomisiynu ar gyfer cynnal adolygiad yn ddiweddarach eleni. Byddaf yn cyfarfod â Chadeirydd yr ASB a byddaf yn trafod ei strategaeth pum mlynedd newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n ei hymrwymo i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar feysydd o ddiddordeb cyffredin yn y

Rhaglen Lywodraethu 2021-26, yn ogystal ag ailymrwymo'r ASB i weithio yn unol â'r egwyddorion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yng ngoleuni'r datblygiad hwn, sy'n dangos aliniad agosach rhwng yr ASB ac amcanion Llywodraeth Cymru.

13. **Pryd bydd Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi Concordat diwygiedig?**

    Mae diweddaru'r Concordat yn dibynnu ar gwblhau'r adolygiad arfaethedig o'r ASB yng Nghymru.

**Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020**

14. **Pa effaith y gallai Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ei chael ar gyfraith Cymru ynghylch labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â bwyd?**

    Bydd y Fframwaith FCSL yn gweithredu yng nghyd-destun Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 (UKIMA), lle bydd yr effaith yn cael ei phennu fesul achos.

15. **A ydych yn bwriadu gofyn am unrhyw eithriadau o'r Ddeddf yn y maes fframwaith cyffredin hwn?**

    Nid oes unrhyw fwriad i ofyn am eithriad.

**Yr UE a Gogledd Iwerddon**

16. **Sut bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro newidiadau i gyfraith yr UE ar labelu, cyfansoddiad a safonau bwyd ac yn asesu goblygiadau gweithredu'n wahanol i'r UE a Gogledd Iwerddon?**

    Mae cyfraith yr UE ar labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â bwyd yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon. Bydd grŵp Swyddogion FCSL yn parhau i ystyried goblygiadau deddfwriaeth newydd yr UE ar gyfer Gogledd Iwerddon.

    Mae prosesau sganio'r gorwel ar waith i fonitro newidiadau arfaethedig yr UE y bydd angen eu gweithredu yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Fframwaith FCSL yn sicrhau bod unrhyw gynigion ar gyfer ymwahanu ymhlith gwledydd Prydain yn cael eu hystyried gan y pedair gwlad a bod Gweinidogion ym mhob un o'r pedair gwlad yn cael cyfle i godi anghydfod gyda'u cymheiriaid.

17. **Sut y byddwch yn asesu'r risgiau a'r manteision o barhau i gadw golwg ar newidiadau i gyfraith yr UE ar labelu, cyfansoddiad a safonau bwyd?**

    Er y bydd y fframwaith yn hyrwyddo'r broses o ddarparu dulliau polisi cyson drwy gydweithio mewn meysydd lle mae gan y DU y gallu i bennu ei dulliau gweithredu ei hun, o dan Brotocol Gogledd Iwerddon bydd cyfraith bwyd yr UE yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon, felly bydd ymwahanu'n dod i'r amlwg dros amser.

    Bydd y newid posibl a sbardunir gan yr UE, yn enwedig newidiadau deddfwriaethol, yn cael ei fwydo i grŵp Swyddogion FCSL y pedair gwlad i ystyried yr hyn y mae'n ei olygu i'r DU gyfan. Bydd grŵp Swyddogion FCSL yn ystyried y risgiau a'r manteision. Gwneir hyn drwy amrywiaeth o ddulliau h.y. ymgysylltu â rhanddeiliaid, datblygu asesiadau effaith, ymchwil defnyddwyr lle y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod buddiannau defnyddwyr, y diwydiant ac awdurdodau gorfodi yn cael eu hystyried ledled y DU.

**Cyfraith ryngwladol a chytundebau rhyngwladol.**

18. **Pa rwymedigaethau rhyngwladol a geir yn y maes polisi hwn?**

    Bydd y Fframwaith FCSL yn hwyluso cydweithio ledled y DU i sicrhau y gall y DU drafod, llunio a gweithredu cytundebau masnach. Mae'r fframwaith hefyd wedi'i ddylunio i sicrhau y gall y DU barhau i gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol megis Codex ac aelodaeth Sefydliad Masnach y Byd.

19. **A fydd y llywodraethau'n cydweithio i gytuno ar safbwyntiau ar gyfer polisi rhyngwladol ar safonau bwyd, ac (os felly) sut?**

    Bydd y gwaith o lunio polisi rhyngwladol yn cael ei ddatblygu yn unol â'r strwythurau rhynglywodraethol priodol. Bydd rhwymedigaethau rhyngwladol yn cael eu gweithredu yn unol â'r cytundebau hyn. Yn hyn o beth, bydd y partïon yn mynd ati yn awtomatig i ddefnyddio unrhyw Goncordat Cysylltiadau Rhyngwladol wedi'i ddiweddaru a chanlyniadau ehangach yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol ar y Cyd, fel sail ar gyfer ystyriaethau rhyngwladol o'r fath.

20. **Pam nad yw'r fframwaith yn cyfeirio o gwbl at Gytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE?**

    Ni fwriadwyd i'r Fframwaith FCSL ddarparu mwy o ymgysylltiad ar faterion yn ymwneud â Chytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE. Mae'r Fframwaith FCSL yn fecanwaith ar gyfer cydweithredu ledled y DU mewn perthynas â materion datganoledig polisi labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â bwyd.

21. **Mae'r fframwaith yn darparu y bydd yn galluogi'r llywodraethau i "ystyried unrhyw oblygiadau sy'n deillio o fasnach ryngwladol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar weithredu Fframwaith Cyffredin." A ydych o'r farn bod hyn yn rhoi digon o gyfle i Lywodraeth Cymru gyfrannu at safbwyntiau'r DU ar labelu, cyfansoddiad a safonau bwyd yn ystod trafodaethau masnach rhyngwladol?**

    Bydd y fframwaith yn rhoi cyfle i drafod safbwyntiau'r DU ar faterion polisi FCSL, gan gynnwys lle y gallant fod yn berthnasol i drafod neu weithredu cytundeb masnach.

**Llywodraethu a datrys anghydfodau**

22. **A ydych chi'n ystyried bod y dull datrys anghydfod yn ddigon cadarn i ateb y diben arfaethedig?**

    Ydy, mae'r dull datrys anghydfod yn cynnwys cyfranogwyr o bob llywodraeth, gydag ymdrechion yn cael eu gwneud yn y lle cyntaf i sicrhau datrysiad ar y lefel isaf bosibl, gan uwchgyfeirio at sylw swyddogion uwch os oes angen.

    Yn yr un modd, gyda'r broses o wneud penderfyniadau a chreu is-grwpiau ar faterion penodol, bydd swyddogion o bob gwlad yn cymryd rhan yn y broses, gyda chynrychiolydd o unrhyw un o'r pedair llywodraeth yn cael sefydlu is-grŵp lle bo angen.

    Fodd bynnag, bydd yn hanfodol ymgynghori â defnyddwyr, cyrff diwydiant a busnesau mewn modd amserol i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau ar unrhyw newidiadau

arfaethedig i bolisi labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â bwyd, oherwydd yr effaith sylweddol y gallai newidiadau ei chael ar fusnes.

**23. Os bydd llywodraeth arall yn gwrthwynebu cynnig polisi gan Lywodraeth Cymru drwy'r mecanwaith datrys anghydfodau, a allai hynny achosi oedi o ran deddfwriaeth yng Nghymru?**

Mae'r prosesau datrys anghydfod yn bodoli i reoli anghydfod ar lefel swyddogol a Gweinidogol. Os bydd anghydfod yn codi, mae'r Fframwaith FCSL yn cynnwys egwyddorion a phrosesau ar gyfer eu hosgoi. Disgwylir mai dim ond nifer fach iawn o achosion fydd angen dulliau datrys anghydfod.

Byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud ar lefel gweithio i ddatrys unrhyw anghydfod sy’n deillio o wahaniaethau mewn dulliau. Bydd anghydfod ar lefel swyddogol yn cael ei gyfeirio'n gyntaf at gyrff uwch swyddogion. Yn yr achosion prin pan na all swyddogion ddatrys anghydfod, gellir ei uwchgyfeirio i gael ei reoli gan Weinidogion. Os na all Gweinidogion gytuno ar ffordd ymlaen, gellir cyfeirio'r anghydfod at y strwythurau rhynglywodraethol priodol (y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - IMSC[1]) i'w ddatrys.

**24. Pam nad oes terfynau amser wedi'u pennu ar gyfer datrys anghydfodau?**

Cydnabyddir y gall anghydfodau amrywio o ran natur, cymhlethdod a chyd-destun gweithredol, felly ni fyddai terfyn amser penodol yn ffafriol i sicrhau'r canlyniadau gorau i bob llywodraeth.

## Sut y datblygwyd y fframwaith

**25. Sut gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran datblygu'r fframwaith?**

Cynhaliwyd ymgysylltiad â rhanddeiliaid y diwydiant ar gynigion y Fframwaith FCSL mewn dwy ran ym mis Hydref 2020 a mis Mehefin 2021.

Ym mis Hydref 2020, roedd yr ymgysylltiad yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant bwyd a bwyd anifeiliaid o bob rhan o'r pedair gwlad yn cael eu holi am adborth cychwynnol a chwestiynau am y cynigion fframwaith. Ni chafwyd unrhyw ymatebion yng Nghymru.

Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid ar-lein ar y cynigion diwygiedig (gan gynnwys ychwanegu Marciau Lot) ar 17 Mehefin 2021. Ochr yn ochr â FSS a Defra, cyflwynodd cydweithwyr yn yr ASB y cynigion ar gyfer y fframwaith i fwy na 30 o randdeiliaid o bob rhan o'r DU, gyda llawer ohonynt yn cynrychioli'r diwydiant ar draws y pedair gwlad. Roedd y diwygiadau'n rhai bach, gan egluro cwmpas y fframwaith ac ychwanegu eglurhad ar eitemau nad ydynt o fewn cwmpas.

Roedd tri yn bresennol o Gymru, Cymdeithas Milfeddygon Prydain, Hybu Cig Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru

**26. Sut mae'r fframwaith yn adlewyrchu ymatebion rhanddeiliaid yng Nghymru?**

Er na chafwyd unrhyw ymatebion penodol i'r ymgynghoriad yng Nghymru, roedd llawer iawn o bobl yn bresennol yn nigwyddiad rhanddeiliaid y DU. Ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol ynghylch y Fframwaith FCSL, ond mynegodd rhanddeiliaid ddiddordeb yng nghwmpas y

[1] Sefydlwyd yr IMSC o ganlyniad i'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol (IGRR). Bydd yn cyfarfod bob yn ail fis i ystyried materion na ellir cytuno arnynt ar lefel portffolio neu i ddwyn ynghyd ystyriaethau strategol sy'n effeithio ar lawer o bortffolios gwahanol.

fframwaith, a rhyngweithiadau â fframweithiau cysylltiedig eraill megis yr NCLS a'r Fframweithiau Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Hylendid. Roedd diddordeb hefyd mewn materion trawsbynciol megis Deddf Marchnad Fewnol y DU a Phrotocol Gogledd Iwerddon.

Roedd y diwydiant yn awyddus i'w farn a'i safbwyntiau gael eu cynnwys wrth ddatblygu unrhyw newid posibl i bolisi labelu neu gyfansoddiad sy'n gysylltiedig â bwyd.

**Adolygu a diwygio**

**27. Sut y bydd y Senedd yn gallu cyfrannu at y broses o adolygu a diwygio'r fframwaith?**

Bydd y Fframwaith FCSL yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Cyflawnir hyn drwy ddilyn y broses Adolygu a Diwygio.

Bydd y broses adolygu a diwygio yn cael ei harwain gan Grŵp Swyddogion FCSL, gydag ymgysylltiad gan Uwch Swyddogion a Gweinidogion.

Bydd y Senedd yn cael gwybod am gyfnodau adolygu sydd ar y gweill er mwyn cyfrannu at y broses.

**28. Sut y bydd rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at y broses o adolygu a diwygio'r fframwaith?**

Os cynigir newidiadau i gwmpas neu weithrediad y Fframwaith FCSL, ymgynghorir â rhanddeiliaid cyn ceisio cytundeb gan y Gweinidog.